7 Mehefin 2024

Annwyl

**Cais am wybodaeth - ATISN 19570**

**Eich Cais**

Diolch am eich cais am wybodaeth a anfonwyd ar 13 Mai. Gwnaethoch ofyn am yr wybodaeth ganlynol:

Yn ôl Trafnidiaeth Cymru, cawsant gorchymyn gan Lywodraeth Cymru i newid amserlenni trên i arbed arian. Hoffwn weld yr Asesiad Effaith Iaith Gymraeg o'r newidiadau/toriadau arfaethedig os gwelwch yn dda.

**Ein Hymateb**

Nid oes gan Lywodraeth Cymru yr wybodaeth hon gan y cafodd y newidiadau gweithredol a gynigir eu datblygu gan Trafnidiaeth Cymru.

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi cwblhau ei waith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ddiweddar er mwyn deall effeithiau'r amserlen arfaethedig ar gyfer mis Rhagfyr 2024. Maent bellach wedi dechrau adolygu'r cyfraniadau gan randdeiliaid a byddant yn ystyried effaith lawn y cynigion, gan gynnwys yr effaith ar y Gymraeg, cyn i'r newidiadau terfynol gael eu cyflwyno i'r amserlen.

O'r herwydd efallai yr hoffech gysylltu â Trafnidiaeth Cymru i gael mwy o wybodaeth. Mae manylion cyswllt Trafnidiaeth Cymru ar gael yma:

Cysylltu â ni | Trafnidiaeth Cymru (trc.cymru).

**Y camau nesaf**

Os nad ydych yn fodlon â'r modd yr ymdriniodd Llywodraeth Cymru â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb yma. Dylech anfon ceisiadau am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru:

Yr Uned Hawliau Gwybodaeth,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF10 3NQ

Neu e-bost: Freedomofinformation@gov.wales

Cofiwch ddyfynnu'r cyfeirnod ATISN a nodir uchod.

Mae gennych hefyd yr hawl i gyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dyma fanylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth:

Information Commissioner’s Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Nodwch, fodd bynnag, na fydd y Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn hyd nes y bydd ein proses adolygu fewnol wedi’i chynnal.

Yn gywir